

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17 CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Arweiniad leithyddol



Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01766 771000. Rydym yn croesawu cyswllt ffôn yn Gymraeg

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو براے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01766771000



**Mae'n bleser gennyf eto eleni gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol 2016/17. Prif bwrpas cyflwyno'r adroddiad yw rhoi trosolwg o sut yr ydym wedi darparu**

**gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn a fu a beth yw'n prif flaenoriaethau ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad yn ymgais i roi asesiad o ba mor effeithiol yw gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd yma yng Ngwynedd.**

Mae 2016/17 wedi bod yn flwyddyn gyffrous a phrysur. Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym fis Ebrill 2016 ac mae llawer o waith wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn o ran hyfforddiant i staff ac ymarfer mewn ffordd wahanol. Hoffwn ddiolch i holl staff y maes a'n partneriaid am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb dros y flwyddyn a fu.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gadarnhau swydd y Pennaeth newydd yn barhaol, sef Aled Davies, a hoffwn groesawu Aled yn ffurfiol i'r maes. Mae Aled yn ymuno â mi a Marian, sef Pennaeth Plant a Theuluoedd, a hoffwn ddiolch i'r ddau ohonynt am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y flwyddyn. Rwyf yn gweithio yn agos gyda'r ddau Bennaeth er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf a hefyd yn adnabod meysydd a materion sydd angen ein sylw wrth edrych ymlaen.

Un o'n prif flaenoriaethau dros y flwyddyn oedd ymateb i'r angen i wella'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi oedolion sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae pobl wedi dweud wrthym fod trefniadau weithiau yn ddryslyd ac yn gymhleth, gyda nifer yn adrodd eu bod yn cael eu pasio o un

lle i'r llall ac yn gorfod adrodd eu stori dro ar ôl tro. Rwy'n grediniol ein bod wedi gwneud cynnydd da gyda'r gwaith o wella hyn, er bod llawer o waith pellach i'w wneud. Mi wna' i amlinellu mwy am y gwaith hwn o fewn yr adroddiad, ond mae'n bwysig cydnabod na fyddai wedi bod yn bosib gwneud y gwaith yma heb weithio gyda'n partneriaid allweddol.

Ar draws y maes, mae'r gwaith o atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf, neu ymateb mor fuan â phosib pan fo materion yn codi yn un o brif egwyddorion y Ddeddf. Mae hyn yn gofyn i ni feddwl yn wahanol a rhan o hyn yw edrych ar draws yr holl ystod o wasanaethau a chyfleoedd sydd mewn cymunedau, ac i gefnogi pobl o fewn eu cymunedau i ffynnu. Mae gennym bellach wasanaeth o fewn yr Adran Plant sydd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi teuluoedd sydd yn cael trafferthion dwys. Mae canlyniadau'r tîm yn addawol tu hwnt. Yn ogystal efallai i rai ohonoch wyllo'r rhaglen deledu dros y Nadolig, 'Hen Blant Bach', bu'n gyfle i edrych ar sut y byddai dod â phlant oed meithrin a phobl hŷn at ei gilydd. Dyma enghraifft sydd wedi ysbrydoli llawer ohonom ac mae bwriad gennym i ddatblygu'r ffordd yma o weithio ymhellach gyda help arbenigwyr o'r Brifysgol. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at y canlyniadau.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad. Rwyf wedi ceisio ei gadw mor gryno a phosib ac yn hawdd i'w ddarllen, gan gadw hefyd at y gofynion statudol sydd arnaf o ran y materion adrodd.

Wedi darllen yr adroddiad, os bydd gennych unrhyw sylw penodol i'w wneud ar y cynnwys neu o ran sut i lunio gwasanaethau i'r dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych ac mae croeso i chi gysylltu â mi drwy'r cyfeiriad e-bost ar ddiwedd yr adroddiad.

**Morwena Edwards**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**



<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad</b>	<b>2</b>
<b>3.</b>	<b>Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?</b>	<b>3</b>
<b>4.</b>	<b>Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo</b>	<b>4</b>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni</li><li>• Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl</li><li>• Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed</li><li>• Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas</li><li>• Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'r teulu ac ar lefel personol</li><li>• Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion</li></ul>	
<b>5.</b>	<b>Sut yr ydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud</b>	<b>17</b>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ein gweithlu a sut yr ydym yn mynd ati i gefnogi eu swyddogaethau proffesiynol</li><li>• Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol</li><li>• Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd</li></ul>	
<b>6.</b>	<b>Cael mynediad at wybodaeth bellach a dogfennau allweddol</b>	<b>21</b>
	<b>Gwybodaeth defnyddiol gan Cyngor Gwynedd</b>	<b>22</b>

# 1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol. Felly, pwrpas yr adroddiad blynyddol yma yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol a thynnu sylw at unrhyw wersi sydd wedi eu dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno. Dylai'r adroddiad hefyd osod bwriadau mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofaluwr sydd angen cefnogaeth, ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei osod mewn perthynas â sut mae Cyngor Gwynedd wedi cyflawni yn erbyn chwe safon ansawdd o lesiant fel sydd wedi eu nodi o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ffurf yr adroddiad yn ofyniad bellach, ac er mai o 2017/18 y bydd rhaid dilyn hyn yn ffurfiol, rydym wedi penderfynu dilyn y drefn ar gyfer eleni. Mae gofyn i bob awdurdod lleol fesur perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dangosyddion a mesurau perfformiad perthnasol yn erbyn y safonau ansawdd.

## 2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y flwyddyn ac ar y cyfan rwy'n falch iawn o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod 2016/17. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd arloesol o weithio. Rwyf yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd gennym yng Ngwynedd gyda'r Bwrdd Iechyd, mae'r berthynas gydweithio yma yn ein galluogi ni i symud ymlaen ymhellach dros y blynyddoedd nesaf i ddarparu gwasanaethau mewn dull integredig. Rydym ar siwrne uchelgeisiol a heriol, ond mae llwyddiannau 2016/17 yn dangos y gallu sydd gennym i wirioneddol ymateb i beth mae bobl yn dweud wrthym, gan wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae'n galonogol iawn hefyd bod yr archwilwyr wedi canmol y newidiadau sydd wedi eu gwneud o fewn gwasanaethau oedolion yn ystod y flwyddyn. Er bod sefydlu'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn weithredol iawn wedi cymryd peth amser, rwy'n falch o'r cynnydd sydd wedi ei wneud. Nododd yr Arolygaeth yn ein cyfarfod ym mis Mawrth 2017 bod cynlluniau cyffrous ar y gweill gan yr Adran gan gyfeirio yn benodol at y gwaith sydd wedi digwydd yn y maes oedolion ag anabledau dysgu. Nodwyd yn ogystal eu bod yn gweld ein gwasanaethau plant yn gadarn a diogel.

Un o brif brosiectau'r maes yw'r prosiect Her Gofal. Y bwriad yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir ynghylch yr her sydd yn ein hwynebu o fewn y maes gofal a drwy wneud hyn ysgogi a chefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn. Gobeithiaf fod y gweithgarwch cymunedol yr ydym yn gobeithio ei sbarduno yn mynd i arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur a fydd yn cynyddu opsiynau lleol i bobl. Byddwn yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddod, ynghyd a'n partneriaid allweddol, i weithio gyda chymunedau i adnabod eu cryfderau a'r agweddau sydd angen eu datblygu i ysgogi diddordeb mewn gweithredu cymunedol. Y bwriad yn ystod y flwyddyn oedd datblygu

strategaeth ataliol/ymyrraeth gynnar ar gyfer y maes plant. Yn anffodus, ni lwyddwyd i sicrhau hyn yn llawn. Er hyn, rydym wedi cael cyfle i adlewyrchu ar ein gweledigaeth a chytuno ar osod cyfeiriad cadarn ar y ffordd ymlaen gyda'r agenda ataliol. I'r perwyl hwn, rydym yng Ngwynedd yn dechrau pennod newydd a chyffrous yn natblygiad gwasanaethau i blant a theuluoedd. Mae gwasanaethau plant i'r dyfodol yn ehangu eu ffocws i ddatblygu strategaeth gydlynol sy'n canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd. Nod y strategaeth yn y pendraw fydd cyfuno'r holl sgiliau, adnoddau ac ymrwymiad pob gweithiwr proffesiynol ar draws adrannau a sectorau mewn ffordd gydlynol i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc Gwynedd.

Mater sy'n parhau i achosi pryder i mi yw'r cynnydd yn nifer y plant sydd yn dod i ofal. Byddwn wedi hoffi gweld newid i'r duedd eleni gyda dyfodiad y Tîm Trothwy Gofal. Serch hynny efallai ei fod yn rhy gynnar i weld gwir effaith yr ymyrraeth yma ar ein ffigyrau plant mewn gofal, ond byddwn yn edrych yn bellach ar y mater hwn yn ystod 2017/18.

Bydd yr adroddiad yn amlinellu yn llawn y perfformiad, ond gallaf gadarnhau fy mod fel Cyfarwyddwr yn gweld cynnydd mewn sawl maes a chadarnhaf yn ogystal bod y gwaith newid a trawsffurfio oedd ei angen yn y maes oedolion wedi ei sefydlu yn gadarn a gwelwn wir dystiolaeth o'r newid hwn. Yn ogystal mae'r maes plant yn parhau yn gadarn o ran ymarfer a'r gwaith diogelu ac yn bwrw ati i roi sylw i'r gwaith o gefnogi teuluoedd mewn ffordd fwy cydlynus i'r dyfodol. Mae gennyf wir hyder am y dyfodol o ran ein gallu i barhau i wella a datblygu.

### 3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Un o ofynion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ydy creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Un o dasgau cyntaf y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus oedd rhannu Gwynedd i 8 ardal ac mae gwaith ymchwil wedi ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 8 ardal yma er mwyn deall a dysgu mwy am eu llesiant. Er mwyn ceisio deall beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd, cynhaliwyd sesiynau cyhoeddus a datblygu holiaduron ar-lein ddiwedd 2016. Gofynnwyd beth oedd yn braf am fyw yn eich ardal, beth oedd ddim cystal, beth o fewn yr ardal sy'n bwysig i lesiant a safon bywyd, a beth fydddech chi yn ei newid am eich ardal er mwyn ei wneud yn lle brafiach i fyw. Yn y pendraw bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r asesiadau yma ynghyd â nifer o ffynonellau eraill, gan gynnwys yr Asesiad Poblogaeth, i lunio Cynllun Llesiant.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio ar Asesiad Poblogaeth sydd yn canolbwyntio ar llesiant unigolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. Rhyddhawyd yr adroddiad cychwynnol ym mis Ebrill 2017. Er mwyn paratoi'r adroddiad, aethom

ati i edrych ar ystadegau, siarad â chymunedau, a defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth a oedd wedi'i chasglu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau, a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau. O'r gwaith ymgysylltu lleol sydd wedi digwydd yn barod, mae 5 thema benodol wedi eu hadnabod sef: dementia, llesiant, unigrwydd, byw yn annibynnol a cartrefi. Mae rhaglen waith cynhwysfawr mewn lle ar gyfer y 5 thema uchod ac mi fyddaf yn adrodd ar ein datblygiadau mewn adroddiadau i'r dyfodol. Yn ogystal a'r gwaith ar y ddau asesiad poblogaeth mae'r canlynol wedi digwydd yn ogystal: -

Ers 2013, mae'r Cyngor wedi cwblhau 34 o gynlluniau ymgysylltu sydd wedi cynnig ystod o gyfleoedd i bobl Gwynedd gyfrannu at y gwaith o siapia gwasanaethau'r Cyngor. Roedd 54% o bobl Gwynedd yn fodlon gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt am yr hyn mae'r cyngor yn ei wneud ac am ei wneud yn y dyfodol am berfformiad y Cyngor. Roedd 72% o bobl yn dweud bod y wybodaeth sydd ar gael yn helpu chi i wybod sut/beth mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ddulliau i gynnal y sgwrs efo pobl Gwynedd ond mae lle i wella eto er mwyn sicrhau fod pobl yn chwarae eu rhan yn llunio gwasanaethau.

## 4. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

Fel yr amlinellwyd ym mhennod 1 uchod, bydd y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn cael eu defnyddio yma i amlinellu'r hyn ddigwyddodd a pha wahaniaeth a welsom. Yn ogystal, ar gyfer pob safon, byddwn yn rhoi braslun o'r hyn y bwriedir ei wneud yn 2017/18.

### Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni.**

**Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol :-**

- sicrhau mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalywyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn ffordd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau yn parhau amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol

- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa ar ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 1

I sicrhau trefniadau syml, y bwriad yw ymgorffori gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth (GCC) o fewn y timau. Mae'r gwaith hwn wedi cychwyn. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda DEWIS Cymru i ddiweddarau'r wefan (sydd yn rhoi gwybodaeth ar beth sydd ar gael i bobl yn lleol) ac i hybu ei defnydd. Yn yr un modd mae'r gwasanaethau Cefnogi Plant a Theuluoedd hefyd wedi bod yn datblygu eu gwasanaethau GCC dros y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn adeiladu ar ein gallu presennol o gyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau



ataliol. Dros y misoedd nesaf bydd yr adran yn raddol ddatblygu eu gwasanaeth GCC ac yn adeiladu ar y syniad o gael 'un drws ffrynt' i holl gyfeiriadau, gan eto geisio symleiddio pethau i bobl.

Mae pobl yn adrodd wrthym yn gyson bod gwasanaethau iechyd a gofal yn gymhleth ac yn achosi rhwystredigaeth. I ymateb i hyn, rydym wedi arbrofi ar ddull newydd o weithio gan lunio'n systemau gwaith drwy roi pobl yn ganolog. Mae'r ffordd newydd o weithio yn weithredol mewn un rhan o Wynedd (Ardal Eifionydd) ers blwyddyn ac mae gweddill y sir yn mabwysiadu'r un trefniadau ar hyn o bryd. Yn y newid yma, mae staff iechyd, staff gofal y Cyngor a chynrychiolaeth o'r trydydd sector yn gweithio fel un tîm. Un agwedd bwysig o'r newid yw sicrau bod un person arweiniol i unigolion er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae wedi profi yn llwyddiant gyda'r unigolion sydd wedi profi'r newid. Mae hwn yn newid enfawr, ac yn seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Felly yn hynny o beth mae'n ddyddiau cynnar ond mae'n glir mai dyma'r ffordd ymlaen. Mae'r newid uchod o ran dull o weithio wedi golygu bod staff yn naturiol fynd ar ôl, "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y pwynt cychwynnol. Mae datblygu system amlddisgyblaethol ar draws iechyd a gofal a phartneriaid perthnasol gan roi unigolion yn ganolog iddo, wedi golygu bod beth sydd yn bwysig i bobl yn gyrru pawb.

Eleni, rydym wedi datblygu systemau ar gyfer casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedolion ac rydym wedi cychwyn defnyddio'r data yma i ddysgu a gwella ein gwasanaethau yn barhaus. Mae nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn drwy holiaduron i ddefnyddwyr gwasanaeth yn berthnasol i Safan Ansawdd 1, ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau yn gadarnhaol yn ystod blwyddyn 2016/17. Canran y bobl hyn a phobl sydd gydag Anableddau Corfforol lle gwelir cynnydd wrth gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yw

88%

Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n trigolion yng Ngwynedd yn gorfod teithio'n bell os am gael rhai gwasanaethau gofal dementia. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddatblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Fe wnaethom adnabod Llys Cadfan yn Nhywyn fel y cartref cyntaf i fuddsoddi ynddo. Bydd yr addasiadau dan sylw yn golygu ehangu'r nifer cyfredol o 8 gwely i 13 gwely erbyn Hydref 2017. Bydd cefnogaeth uwch gan weithwyr iechyd ar gael i gefnogi'r cartref gyda'r gofynion mwy dwys. Bydd y datblygiad hwn hefyd yn arwain at gynnydd yn y nifer o wlaù gofal tymor byr yn y cartref o 2 i 7. Bydd cyfleusterau gofal dydd i ddydd hefyd yn cael eu huwchraddio er mwyn sicrhau'r gofal gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws y safle.

Rydym fel Cyngor yn ceisio hybu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol ar draws y maes gofal er mwyn rhoi hyblygrwydd, dewis a rheolaeth i unigolion fod yn cyflawni eu hamcanion gofal. Ar hyn o bryd mae oddeutu 121 o unigolyn yn manteisio ar y defnydd o Daliadau Uniongyrchol ac mae gwaith hyrwyddo pellach angen ei wneud yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu'r polisi er mwyn gwerthuso'r opsiynau sydd ar gael i godi incwm o dan ofynion y ddeddf. Mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig asesiad o'i modd ariannol cyn bod gofyn iddynt gyfrannu dim tuag at gost eu gofal.

Ar gyfer plant, rydym yn ystod y flwyddyn wedi addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd sydd yn rhoi'r plentyn yn ganolog. Mae rhaglen hyfforddiant yn ei lle i sicrhau bod holl weithiwr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi eu hyfforddi yn y sgysiau 'yr hyn sydd yn bwysig'. Mae'r maes plant yn amlwg yn wahanol i oedolion, a rhan allweddol o'r gwaith yma yw sicrhau llais i blant a phobl ifanc o dan "beth sydd yn bwysig".



Rydym wedi datblygu fframwaith ganlyniadau ar gyfer adolygiadau statudol plant mewn gofal ac amddiffyn plant fel rhan o ddatblygiad model gwarantu ansawdd. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i blant a mesur effaith y gwaith sydd yn digwydd. Roedd canran o asesiadau craidd oedd eu hangen ar gyfer plant ac a gwblhawyd ar amser (42 diwrnod) yn 91% yn ystod 2016/17 sydd yn gynydd ers y llynedd. Wrth ddweud hyn mae'n hanfodol bwysig bod ein hasesiadau yn gywir, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynhwysfawr ac oherwydd natur cymhleth rhai amgylchiadau, mae rhaid cydnabod bydd ambell i adroddiad yn cymryd ychydig mwy o amser.

Mae sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y plentyn, ac yn ei glywed ym mhopeth yr ydym yn ei wneud yn hynod o bwysig. Rydym angen sicrhau ein bod yn cynnwys barn y plentyn, lle gallwn, wrth wneud penderfyniadau wrth gynllunio ar eu cyfer. Yn ystod 2016/17 canran y cynadleddau achos lle clywyd llais/barn (eithrio plant dan 7) yn 84%. Mae'r perfformiad yma wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ond hoffwn weld peth cynnydd yn y blynyddoedd sydd i ddod i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn dull sydd yn seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru.

Mae ein perfformiad sydd yn ymwneud ag Eiriolaeth yn siomedig eto eleni gyda 28% o blant perthnasol yn cael cynnig y Gwasanaeth. Mae eiriolaeth yn golygu codi llais dros blant a phobl ifanc, gan wneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn hwy yn cael ei chlywed. Rwy'n falch o gael adrodd bydd fframwaith Eiriolaeth Genedlaethol newydd yn cael ei lansio yn ystod y flwyddyn fydd yn sicrhau bod pob plentyn sydd yn dod i ofal neu sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael cynnig eiriolaeth annibynnol lle bo angen i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau.

## Ein blaenoriaethau o ran safon 1 ar gyfer 2017/18

### Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth ymhellach

Bydd 2017/18 yn gweld y Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth yn datblygu ac yn aeddfedu ymhellach, a hynny yn y maes oedolion ac yn y maes plant a theuluoedd. Mae'n hanfodol bod hwn yn flaenoriaeth fel y gallwn fod yn sicr bod unigolion yn cael y wybodaeth a'r cyngor cywir yn amserol a drwy hynny yn osgoi i bethau fynd yn waeth.

### Datblygu'r trefniadau ar y cyd gydag iechyd o fewn y maes Pobl Hŷn ymhellach

Bydd y timau ar y cyd efo iechyd o fewn y maes pobl hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan ei bod yn hynod bwysig ein bod yn gwreiddio'r newid yn gadarn. Mae'n newid mawr i ni ac yn bell-gyrhaeddol o ran potensial, ond mae'n rhaid iddo barhau yn flaenoriaeth am rai blynyddoedd er mwyn bod yn sicr y gwelwn y buddiannau i bobl Gwynedd.

### Datblygu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

Er bod gwaith da wedi digwydd wrth symud prosiectau penodol yn eu blaen o ran gwaith ymyrraeth gynnar ac ataliol o fewn y maes plant, mae gwaith angen digwydd i osod strategaeth cefnogi teuluoedd ar sylfaeni cadarn. Mae nifer y Plant Mewn Gofal yng Ngwynedd yn cynyddu, serch y gwaith a'r buddsoddiad sydd wedi ei wneud. Bydd angen adolygu ein trefniadau yn ystod 2017/18 gyda'r bwriad o fod yn sicr bod ein holl wasanaethau yn chwarae eu rhan ac yn glir o ran eu cyfrifoldebau.

## Safon Ansawdd 2

### Gweithio gyda phobol a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl.

#### Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:-

- ▶ hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- ▶ cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- ▶ annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa ar ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 2

Rydym yn y Cyngor wedi gweithio yn galed iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf i helpu pobl i barhau i fod mor annibynnol ag sydd yn bosib, a lleihau'r nifer o bobl sydd angen cymorth mewn cartrefi gofal preswyl. Rydym, gyda'r Bwrdd Iechyd, yn darparu ystod eang o fathau o ofal yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty neu er mwyn osgoi mynediad i'r ysbyty. Gyda chefnogaeth buddsoddiad arian Cronfa Gofal Canolraddol, mae 23 gwely tymor byr wedi eu sefydlu mewn cartrefi gofal ar draws y Sir.

Er y datblygiadau hyn, mae oediad wrth drosglwyddo o ysbytai yn parhau yn fater sydd yn derbyn sylw gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted ag byddant yn barod i wneud hynny. Pan na allent wneud hynny, ac na allwn drefnu'r gofal a'r cymorth sydd angen i alluogi i bobl adael yr ysbyty, gelwir hyn yn 'oedi wrth drosglwyddo am resymau gofal cymdeithasol'. Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal

cymdeithasol wedi dirywio, gyda chynnydd o 2.38% yn 2015/16 i 4.91% yn 2016/17. Mewn ymateb i'r uchod, rydym yn adolygu'r system ofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio creu system sydd yn gweithio'n well i gleifion gan ddileu'r rhwystrau sydd yn codi i bobl. Edrychaf ymlaen yn fawr at beth ddaw allan o'r gwaith arloesol yma.

Ym Mehefin 2016 rhyddhawyd adroddiad yr Arolygiaeth ar wasanaethau oedolion ac anabledau dysgu. Ers rhyddhau'r adroddiad, rwyf yn falch iawn o gael adrodd bod y gwasanaeth anabledau dysgu wedi gwneud cynnydd sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth. Mae rhaglen gyffrous yn ei lle ar gyfer sicrhau darpariaeth gynaliadwy i oedolion gydag anabledau dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwasanaeth newydd wedi ei ddylunio i helpu unigolion i ganolbwyntio ar eu cryfderau ac ar yr hyn y medrant ei gyflawni yn ddiogel ac ar ben eu hunain. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid Cronfa Ganolradd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r model newydd ar ddarparu gwasanaeth fydd o fudd i oedolion gydag anabledau dysgu wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Yn ailagor fis Mai 2017, bydd caffir ganolfan yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion gydag anabledau dysgu i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol pwysig, ynghyd â darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach. Mae'r prosiect hwn yn dangos be ellir ei gyflawni drwy ddatblygu syniadau arloesol sydd yn galluogi adrannau gwahanol y Cyngor i gydweithio i ddarparu gwasanaethau. Mae hon yn rhaglen gyffrous iawn a'n bwriad i'r dyfodol yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws Gwynedd.

Mae Iechyd Meddwl yn thema sydd wedi cael ei adnabod ar draws gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, nid yn unig o fewn meysydd oedolion ond o fewn gwasanaethau plant hefyd. Nid yw wedi bod yn gyfnod hawdd o ran sicrhau trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd ond, gyda



phenodiad y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl newydd yn ddiweddar, a strwythur newydd o fewn y Cyngor, hyderaf y bydd cyfle nawr i ymateb i'r pryderon sy'n parhau. Mi fydd y Cyngor yma yn parhau i geisio sicrhau darpariaeth ddigonol Iechyd Meddwl ar draws y sbectrwm angen ar y cyd gyda'n partneriaid.

Fel wyf wedi nodi eisoes, mae cynnydd eto eleni yn y niferoedd o blant mewn gofal o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bellach mae 218 o blant mewn gofal (diwedd Mawrth 2017) o'i gymharu â 207 yr un cyfnod y llynedd. Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn. Yn aml maent wedi profi niwed neu esgeulustod ac mae ganddynt lawer o anghenion iechyd a lles. Mae'r materion iechyd a lles plant mewn gofal wedi cael sylw'r Panel Rhiant Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr asesiadau yma yn digwydd yn amserol. Bwriad y Panel Rhiant Corfforaethol dros y flwyddyn i ddod fydd datblygu'n bellach ar y strategaeth bresennol, sef 2017- 20 er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc ac i dreiddio yn ddyfnach i rai materion amlwg fel, iechyd, lles emosiynol a sefydlogrwydd.

Mae'r prosiect Ymyrraeth Gynnar/Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd wedi bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ers 2015. Rydym eisoes wedi cynnal asesiad o anghenion sydd wedi eu hadnabod meysydd penodol sydd angen eu targedu wrth gynllunio ymyrraeth gynnar i'r dyfodol. Mae'r meysydd yma yn cynnwys: Oediad Iaith a Lleferydd, Rhiantu a Chefnogaeth Ymddygiad, mynediad i wasanaethau Iechyd Meddwl a Chefnogaeth i bobl ifanc yn eu harddegau.

Rydym yn dechrau pennod newydd a chyffrous yn natblygiad gwasanaethau i blant a cefnogi teuluoedd. I'r dyfodol y bwriad yw ehangu ein ffocws i ddatblygu strategaeth gydlynol sy'n canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd. Nod y strategaeth yn y pendraw fydd cyfuno'r holl

sgiliau, adnoddau ac ymrwymiad pob gweithiwr proffesiynol ar draws adrannau a sectorau mewn ffordd gydlynol i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc Gwynedd. Credaf fod ymyrraeth ataliol effeithiol yn gwneud plant yn fwy diogel, yn fwy iach ac â'r gallu i ddatblygu a chyrraedd eu llawn botensial.

Un o uchafbwyntiau y flwyddyn oedd gweld agoriad Ysgol Hafod Lon ym mis Hydref 2016, yn sgil buddsoddiad o £13m. Mae'r ysgol newydd, sydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Mae'n cynnwys ystafelloedd dosbarth modern gyda'r adnoddau diweddaraf, yn ogystal â phwll hydrotherapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyrdd ac ardal chwarae awyr agored. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen yn ystod y flwyddyn i sefydlu Uned Egwyl Fer ar safle'r ysgol. Bydd y gwasanaeth newydd yma yn cynnig gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl gan roi ysbaid i deuluoedd. Bydd y gwasanaeth yma yn caniatáu teuluoedd gael cefnogaeth leol o safon.

Mae Tîm Derwen yn parhau i gynnig gwasanaeth arbenigol i blant anabl a phlant sydd yn wael. Mae Derwen yn dîm integredig gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn ystod y flwyddyn maent wedi derbyn 209 o gyfeiriadau newydd ar draws eu gwasanaeth sydd yn cynnwys y gwasanaeth nyrsio a seicoleg. Yn genedlaethol ac yn lleol mae darparu gwasanaeth Awtistiaeth yn flaenoriaeth. Yn genedlaethol rydym yn cychwyn ar y broses o ddatblygu gwasanaeth integredig awtistiaeth gydol oes fydd yn ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau sydd yn cael eu hadrodd gan deuluoedd sef yr angen am wasanaethau amserol, mynediad i weithgareddau cymdeithasol a hyfforddiant a chefnogaeth. Mae themâu amlwg yn codi o fewn y maes e.e. unigolion ag awtistiaeth sydd heb anabled dysgu neu gyflwr iechyd meddwl yn methu cael mynediad at wasanaethau. Yng Ngwynedd, o

fewn y maes plant yn ystod y flwyddyn mae Tîm Derwen wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Adran Addysg i sefydlu tîm Niwroddatblygiadol. Bydd angen adolygu'r newidiadau a gweithio'n agos a theuluoedd o fewn y maes pwysig hwn.

### Ein blaenoriaethau o ran safon 2 ar gyfer 2017/18

#### Gwella mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn derbyn gwasanaeth gan y Cyngor sydd yn byw gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae sicrhau mynediad amserol at wasanaethau Iechyd Meddwl ar draws ystod o angen yn parhau i fod yn fater o flaenoriaeth.

#### Datblygu Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

Rydym o'r farn bod ymyrraeth effeithiol yn gwneud plant yn fwy diogel, yn fwy iach ac â'r gallu i ddatblygu a chyrraedd eu llawn botensial. Mi fydd datblygu strategaeth Cefnogi Teuluoedd yn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn darparu'r ymyrraeth gywir ar yr amser cywir.

#### Datblygu ein gwasanaeth Awtistiaeth

Yn genedlaethol ac yn lleol mae darparu gwasanaeth Awtistiaeth yn flaenoriaeth. Mi fydd cyd weithio agos yn parhau yn ystod flwyddyn gyda'n partneriaid Iechyd ac addysg er mwyn adolygu'r ddarpariaeth a sicrhau ein bod yn gweithredu yn y ffordd orau.

### Safon Ansawdd 3

#### Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

##### Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:-

- Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- Darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- Datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- Rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- Eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

### Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 3

I sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau diogelu, mae'n hanfodol bod ymwybyddiaeth o'r maes yn bodoli ar draws staff y Cyngor. Mae ymdrechion yn parhau o ran gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor ac erbyn hyn mae'r Cyngor wedi sicrhau ein bod wedi mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau diogelu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Rydym yn cynnal awdit blynyddol i fesur effaith a gwelliant



mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r maes diogelu, ynghyd â chynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau fod ein trefniadau ni'n gadarn yn y maes. Mae'r Awdit Ymwybyddiaeth wedi dangos eleni bod cynnydd wedi bod yn y lefelau ymwybyddiaeth o Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor fod yn rhagweithiol er mwyn ymateb yn briodol ac effeithiol i bryderon sy'n codi. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Cynhaliwyd cyfarfod hefo swyddog AGGCC gychwyn mis Mawrth 2017 ac wrth gydnabod bod gwaith i'w wneud, a bod her o'n blaenau, cafodd y trefniadau arfaethedig eu disgrifio fel newidiadau 'cyffrous'. Mae'r adborth yma yn galonogol iawn ar ddechrau cyfnod o newid. Bydd yr uned wedi ei sefydlu'n llawn erbyn Mehefin 2017 ac mae rhaglen waith gynhwysfawr wedi cael ei datblygu.

Mae ein mesurau ym meysydd oedolion a phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2016/17. Gwelwyd eto eleni, o'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, rydym weddi llwyddo i reoli'r perygl 100% o'r amser.

Un darn o waith bwysig o fewn y maes diogelu a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith i barhau i sicrhau cadernid gweithrefnau a pholisïau diogel o fewn y maes Addysg yn benodol. Bu i ni hefyd ganolbwyntio ar ein hymateb lleol i'r risg Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) sydd yn derbyn sylw rhanbarthol yn ogystal. Mae trefniadau casglu gwybodaeth gadarn yn eu lle sydd wedi gwella ein hymwybyddiaeth a'n helpu ni i ddeall tueddiadau. Cynhaliwyd hyfforddiant

amlasiantaethol yn ystod y flwyddyn gan arbenigwr yn y maes i ddatblygu sgiliau adnabod arwyddion CSE, a sut i adnabod bregusrwydd mewn unigolion sydd yn agored i gael eu hecsploetio.

Mae ymddygiad rhywiol problemus/niweidiol yn faes sydd yn derbyn sylw rhanbarthol. Rydym yn gweld cynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio ymlaen i wasanaethu ffurfiol oherwydd eu hymddygiad rhywiol niweidiol neu broblemus. Mae'r Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi penderfynu ar y cyd i weithio ar ffrawaith rhanbarthol mewn ymateb i'r materion yma er mwyn sicrhau gweithlu cadarn sydd yn gallu ymateb yn effeithiol i'r pryderon. Bydd y gwaith o ddatblygu'r fframwaith yma yn cael ei arwain gan yr NSPCC.

Yn benodol o ran plant, mae'r gyfradd o asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn awgrymu perfformiad cadarn eto, 95% yn 2016/17 er peth llithriad o'i gymharu â 97% yn 2015/16. Mae'r cyfnod cyfartaledd amser mae plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn 267 diwrnod, sydd yn is na tharged y Cyngor.

## Ein blaenoriaethau o ran safon 3 ar gyfer 2017/18

### Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd

Mae'r arolygaeth yn ogystal â'r Cyngor yn adnabod angen y Cyngor i wella yn barhaus y trefniadau a'r diwylliant o fewn y maes oedolion. Mae'r maes diogelu yn holl bwysig er mwyn sicrhau fod pob un unigolyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

## Parhau i sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r maes diogelu

Mae'r Cyngor o'r farn bod diogelu plant ac oedolion bregus yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom. I'r perwyl hwn bydd sicrhau perchnogaeth Cyngor Cyfan i'r maes Diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r blynyddoedd sydd i ddod.

### Ymddygiad Rhywiol Probelmus/Niweidiol

Mewn ymateb i'r cynnydd mewn nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau Diogelu oherwydd eu hymddygiad rhywiol niweidiol. Byddwn yn blaenoriaethu datblygu ein dealltwriaeth o'r maes a gwella ein hymateb drwy gyd weithio yn rhanbarthol ac ar y cyd gyda'r NSPCC i ddatblygu fframwaith rhanbarthol.

### Safon Ansawdd 4

Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas.

#### Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:-

- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- ▶ Helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- ▶ Annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

## Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 4

Mae sicrhau adnoddau cymdeithasol yn angenrheidiol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r perygl o unigrwydd ymysg trigolion hŷn ac mae'r Cyngor yn chwarae rhan bwysig wrth geisio gwella adnoddau cymdeithasol y boblogaeth. Mae llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden eisoes yn gwneud gwaith pwysig. Yn yr un modd, mae Canolfannau Heneiddio'n Dda wedi profi i fod yn lwyddiant mawr. Mae dros fil o bobl hŷn eisoes yn cael gwneud defnydd o'r canolfannau sydd wedi eu sefydlu ym Mlaenau Ffestiniog, Llanrug, Nefyn, y Bala, Cricieth, Penrhyndeudraeth a Dolgellau gydag ymdrechion ar waith hefyd ar gyfer sefydlu darpariaeth yn Abersoch, Caernarfon, Bangor a Phen-y-groes.

Rwy'n hynod falch o'r cyfraniad mae'r Uned Celfyddydau Cymunedol wedi ei wneud. Mae'r Uned yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol ar hyd a lled Gwynedd, gyda rhai ohonynt wedi eu targedu'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Ymhlith y prosiectau mae pobl hyn ardal Caernarfon yn cael cyfle i greu gwaith creadigol wedi ei ysbrydoli gan eu hatgofion a'u profiadau o'r môr, ac mae Grŵp Therapi Celf Gymunedol Dwyfor yn defnyddio therapi celf fel ffurf o therapi ac sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Mae rhaglen 'Hen Blant Bach' yn sicr wedi cyfrannu at yr amcan yma. Daeth plant o Feithrinfa Plant Parciau i Ganolfan Ddydd Maesincla dros gyfnod o wythnos i gymdeithasau a chyfrannu at weithgareddau ar y cyd. Rwy'n falch iawn bod yr arbrawf wedi bod yn lwyddiant ysgubol ac adlewyrchir hyn yn y rhaglen deledu a ddarlledwyd ar y 28ain o Ragfyr 2016. Daeth yn amlwg iawn bod gan gynllun fel hwn botensial anferth i atal unigrwydd sef un o brif amcanion y Canolfannau Dydd. Rwyf yn hynod falch o adrodd y bydd rhagor o waith yn digwydd i'r syniad cyfoes



hwn sy'n pontio'r cenedlaethau, ac edrychaf ymlaen at gael rhannu ychydig mwy o newyddion da gyda chi.

Mae cynllun DementiaGo wedi cynnal sesiynau ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofaluwr o fewn canolfannau hamdden ers 2015. Mae'r cynllun yma wedi bod yn llwyddiant dros ben trwy annog pobl sydd yn byw gyda dementia a'u gofaluwr i gadw'n actif, a hefyd i gael cyfle i gymdeithasu. Mae'r rhaglen bellach wedi ei hehangu a'i datblygu i gynnal profiadau i breswylwyr ein cartrefi gofal gyda rhai cartrefi yn ymrwmo i fod yn 'gyfaill dementia' ac yn bencampwyr dementia. Mae bwriad i hyfforddi'r gweithlu o fewn 11 Cartref Gofal erbyn diwedd 2017/18. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael y cyfle i fod mor actif â phosibl i leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a chynyddu ansawdd bywyd.

Rydym yn ymwybodol bod canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal yn bell oddi wrth gyrhaeddiad eu cyfoedion; sydd felly hefyd yn golygu eu bod dan fwy o anfantais i lwyddo a chyflawni eu nodau llesiant. Fel yr wyf wedi ei drafod yn barod, mae rôl y Panel Rhiant Corfforaethol yn hanfodol i sicrhau bod bob un o'r plant sydd mewn gofal yn llwyddo i gyrraedd eu llawn potensial.

Yn ystod y flwyddyn yma mae 64.1% o blant wedi derbyn Cynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol. Er bod hyn yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi gosod blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau bod y cynlluniau Addysg o ansawdd, yn briodol ac yn uchelgeisiol ar eu cyfer. Mae canran y plant sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant 12 mis ar ôl gadael gofal eleni yn 50%. Yn yr un modd mae'r canran o blant sydd mewn addysg, gwaith a hyfforddiant ar ôl 24 mis yn 45%. Nid yw'r ffigyrau yma yn galonogol iawn, ond rwy'n

falch o adrodd y bydd y Cynllun 'Ad Trac' yn dod yn fyw ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yma fydd yn rhoi'r pwyslais angenrheidiol yno i sicrhau bod y plant sydd yn gadael gofal yn cael eu hadnabod fel blaenoriaeth i dderbyn y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i sicrhau addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae'n rhaglen gyffrous fydd yn mynd rhagddi i helpu i godi momentwm y gwaith sydd angen i wneud gyda'r plant sydd yn ein gofal. Rwyf yn croesawu adroddiad y Comisiynydd Plant, Sally Holland 'Breuddwydion Cudd' a'i hargymhellion er mwyn sicrhau bod plant sydd yn gadael gofal yn derbyn yr un cyfleoedd, cefnogaeth a chymorth i ffeindio eu ffordd yn y byd.

Bu Gwynedd yn rhan o raglen beilot i'r cynllun 'Pan fydda i'n barod' ers 2013 ac ers Ebrill 2016 mae'n gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Y nod yw medru cynnig sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc fel nad ydynt yn symud allan o ofal cyn eu bod yn barod i wneud hynny. Yn ystod 2016-17 mae 10 person ifanc wedi bod yn rhan o'r cynllun ac ar ddiwedd chwarter 3 roedd 6 person ifanc yn parhau mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Ers cychwyn y cynllun yn 2013 mae 58% o'r bobl ifanc a oedd yn gymwys ar gyfer y trefniant wedi dewis bod yn rhan ohono.

Mae Dechrau'n Deg yn brosiect gan Lywodraeth Cymru sydd yn cael ei gynnal o fewn 6 dalgylch yng Ngwynedd. Mae'r prosiect yn gweithio efo plant o dan 4 oed a'i fwriad yw gwella sgiliau'r plant, gan eu paratoi ar gyfer yr ysgol, yn ogystal â'u paratoi ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Mae Dechrau'n Deg hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol i rieni i'w cynorthwyo wrth i'w plant dyfu a datblygu. Yn ystod 2016/17 mae Canran presenoldeb y Plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg yn 84% sydd yn dangos peth cynnydd ar 83% y llynedd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o becynnau uwch rhiantu sydd wedi arwain at deithio pellter cadarnhaol yn 89% o'i gymharu â 48% y llynedd.



## Ein blaenoriaethau o ran safon 4 ar gyfer 2017/18

### Mesur Effaith Rhaglen DementiaGo

Law yn llaw ag ehangu'r rhaglen hon, mae trafodaethau dechreuol wedi bod o ran yr angen i arddangos a mesur effaith y cynllun. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn cyfiawnhau cefnogaeth ariannol barhaol gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.

### Gwella Cyrhaeddiad Plant mewn Gofal a Phlant sydd yn Gadael Gofal

Mae sicrhau'r Addysg orau a gwella cyrhaeddiad plant sydd yn gadael gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor eto eleni. Rydym angen sicrhau ein bod yn lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant sydd wedi bod mewn gofal a'u cyfoedion.

## Safon Ansawdd 5

### Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol.

#### Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:-

- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- ▶ Helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- ▶ Lle y bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

## Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 5

Mae gofalwyr yn hanfodol i'r system gofal a iechyd ac yn un o'r grwpiau sydd angen eu hystyried wrth gwblhau Asesiad Anghenion Poblogaeth. Un o flaenoriaethu'r Cyngor yn ystod 2016/17 oedd adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr ac mae ein craffwyr wedi cynnal ymchwiliad i wasanaethau gofalwyr yng Ngwynedd. Mae nifer o argymhellion yn deillio o'r ymchwiliad ac mae rhaglen waith bellach yn ei lle. Yn rhanbarthol mae Swyddog o Gyngor Gwynedd yn arwain ar ddatblygu gwasanaeth gofalwyr ar draws y rhanbarth. Mae pwyslais yma i sicrhau ein bod yn edrych ar wasanaethau o bersbectif y gofalwyr.

Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn rhoi cymorth arbenigol i deuluoedd, sydd wedi eu heffeithio gan gyffuriau ac alcohol. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth yma, mae'r gwasanaeth yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd sydd angen yr help fwyaf. Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda 35 o deuluoedd, roedd 67 o blant yn bresennol yn y teuluoedd yma. Mae'r tîm wedi llwyddo i sicrhau newid arwyddocaol o fewn 26 teulu gyda'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn galonogol iawn.

*"Rwyf wedi bod yn ofnadwy o hapus gyda'r lefel o gefnogaeth rwyf wedi ei derbyn gan fy ngweithiwr IFSS. Mae hi wedi fy nghefnogi i wneud newidiadau yn fy mywyd sydd wedi arwain i fy merch ddod yn ôl i fyw hefo fi. Da ni angen mwy o weithwyr fel hyn"*

#### Defnyddiwr Gwasanaeth

Daeth Tîm Trothwy Gofal yn weithredol ym mis Ionawr 2015 ac mae'r tîm yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd pan mae eu sefyllfaoedd adref yn fregus iawn. Wrth



gydweithio gyda'r plant a theuluoedd, mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl yn cael eu diwallu. Ers mis Ebrill 2016 mae'r tîm bellach wedi gweithio gyda 96 plentyn (46 teulu). Er yn ddyddiau cynnar, wrth fesur effaith ymyrraeth y tîm, mae canfyddiadau cynnar yn dangos llwyddiant gyda chanran o'r achosion lle dangosir lleihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn ymyrraeth y tîm yn 79%. Er ein bod dal i weld cynnydd mewn niferoedd plant mewn gofal, tybiwn y byddai'r nifer yn uwch heb ymyrraeth y gwasanaeth yma. Serch hyn, bydd angen gwaith pellach i sicrhau bod yr ymyrraeth yn gwneud gwir wahaniaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ystod y flwyddyn wedi bod trwy gyfnod o drawsffurfio wrth iddynt symud i system asesu newydd sydd yn rhoi mwy o lais i'r plentyn a'u teuluoedd wrth gynllunio ar eu cyfer. Mae "ASSET Plus" yn fframwaith asesu a chynllunio holistaidd sydd yn dilyn person ifanc o ddechrau i ddiwedd eu cyfnod yn y system gyfiawnder. Mae'n sicrhau nad yw'r person ifanc yn gorfod ailadrodd eu stori tro ar ôl tro, a hefyd yn sicrhau ein bod yn gwrandao ar lais y plentyn ac ar y bobl sydd yn bwysig iddynt. Y bwriad yn y pendraw fydd sicrhau gwell ymyriadau wedi eu targedu, fydd yn arwain at well canlyniadau i'r unigolyn. Mae canlyniadau eleni yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn cefnogi plant a theuluoedd dwy gynnig mynediad i deuluoedd i wasanaethau yn y gymuned neu drwy wasanaeth sydd yn cael ei gyd-gordio drwy Dîm Gyda'n Gilydd. Mae'r Tîm Gyda'n Gilydd yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau nad yw'r problemau sydd yn eu hwynebu yn mynd yn fwy dwys a chymhleth. Mae 95% o deuluoedd yn adrodd eu bod wedi gweld gwelliant arwyddocaol yn eu bywydau teuluol wedi ymyrraeth Gyda'n Gilydd. Mae hwn yn gynnydd ar y llynedd.

*"Jyst eisio deud diolch am bob dim, da chi di mynd 'above and beyond' i fi a 'fy mhlentyn' ac mae'n golygu lot i ni, felly diolch o'n calon."*

Teulu un plentyn

## Ein blaenoriaethau o ran safon 5 ar gyfer 2017/18

### Sicrhau hawliau a chefnogaeth gwell i ofalwyr.

Mae gofalwyr o bob oedran wedi eu hadnabod fel un o'r grwpiau sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Rydym yn adnabod bod y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei roi i gymdeithas yn un gwerthfawr ac rydym angen sicrhau bod y profiad o ofalu yn un llawer gwell.

### Gwerthuso Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd

Dyma fydd un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn yn canolbwyntio yn y misoedd nesaf ar werthuso rhaglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd er mwyn dysgu lle gallwn wella a datblygu er mwyn cynnig gwell gwasanaethau i'n teuluoedd fel rhan o'n strategaeth ymyrraeth gynnar ehangach.

## Safon Ansawdd 6

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion.

### Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:-

- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol.
- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw.

- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- ▶ Darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- ▶ Darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

## Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd 6

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae'r tîm yn darparu cefnogaeth tenantiaeth i bobl fregus i sicrhau eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Bu cynnydd sylweddol yn y galw llynedd a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 722 o denantiaid ac mae perfformiad yr uned ymhlith y gorau yng Nghymru. Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru mae'r gwasanaeth digartrefedd hefyd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2016/17 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,000 i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a

chreadigol yn sgil hyn rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc. Mae dadansoddiadau mapio yn cadarnhau mae ein grwpiau blaenoriaeth uchaf yw'r rhai sy'n ffoi rhag cam drin domestig, pobl ifanc, pobl sy'n gadael carchar, pobl ddigartref rhwng 25 a 54 mlwydd oed, rhai sydd yn camddefnyddio sylweddau a rhieni sengl. Mae'r bwch wedi bod yn amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chynnydd yn nifer ein cleientiaid sydd efo problemau iechyd meddwl dwys ac unai wedi dod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mi fydd hyn yn cael sylw gan y Cyngor yn ystod 2017/18.

Mae'r cynllun, gwerth £8.5 miliwn, Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest yn cael ei ddatblygu gan gymdeithas dai Grŵp Cynefin mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae Hafod y Gest newydd, sydd wedi'i leoli yng nghanol tref Porthmadog, mewn safle delfrydol yng nghanol y gymuned yn agos i siopau a chyfleusterau'r dref yn cynnig llety gofal ychwanegol i bobl hŷn yr ardal. Bydd yno 40 o fflatiau un a dwy lofft gyda gofal 24 awr; canolbwynt cymunedol ar gyfer gweithgareddau; ystafelloedd hobïau, ffitrwydd, harddwch a therapi; lolfa a bwyty. Rwy'n falch o adrodd bydd preswylwyr cyntaf Hafod y Gest yn cychwyn ymgartrefu yno ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau fod digon o dai addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd gan bod prisiau uchel yn rhwystro pobl leol rhag prynu tai, yn ogystal rydym yn ymwybodol o brinder addas o dai rhent. Mewn ymateb i'r broblem mae'r Cyngor wedi ceisio darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy yng nghymunedau gwledig Gwynedd ac mae datblygiad 9 tŷ wedi cael ei godi ym Mynytho. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau gyda'r bartneriaeth gyda Grŵp Cynefin ac yn gobeithio datblygu cynlluniau tebyg yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Waunfawr i'r dyfodol.



Mae'r prosiect OPUS nawr yn weithredol yng Ngwynedd. Nod y prosiect yw lleihau lefelau diweithdra yng Ngwynedd gan gynyddu cyflogadwyedd unigolion bregus a'u symud yn nes i'r farchnad lafur. Mae'r prosiect yn agored i unigolion 25 oed a throsodd sydd yn economaidd anweithgar neu yn ddi-waith tymor hir sydd â rhwystrau cymhleth i waith fel enghraifft iechyd, anabledau a phroblemau iechyd meddwl. Rydym wedi dechrau derbyn cyfeiriadau fis Chwefror eleni ac edrychaf ymlaen at adrodd canlyniadau'r prosiect yn y dyfodol.

Rydym yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu cyfarfod o fewn eu lleoliadau. Mewn argyfyngau neu pan fo amgylchiadau yn newid, mae angen symud lleoliadau. Mae niferoedd o newidiadau mewn lleoliadau yn parhau i fod yn isel, ond weithiau mae newidiadau yn gadarnhaol wrth i blant symud i leoliadau parhaol neu yn cael eu mabwysiadu. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 66% o blant mewn gofal mewn lleoliadau maethu.

Mae nifer o achosion llys yn ddiweddar yn dod i benderfyniad i leoli plant gyda'u rhieni er bod gennym bryderon diogelu. Mae hyn yn creu sefydlogrwydd i'r plentyn ond yn her i'w reoli oherwydd sefyllfaoedd risg cynyddol uwch. Ein nod yw datblygu ein gwasanaethau i sefydlogi'r lleoliadau yma gan barhau i fuddsoddi yn sgiliau ein rhieni maeth. Mae gennym 103 o rieni maeth wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor ac maent yn derbyn cefnogaeth dda ac addas, mae'r nifer yn gynyddu ar y 99 rhiant maeth oedd wedi eu cofrestru y llynedd.

## **Beth yw'n blaenoriaethau o ran safon 6 ar gyfer 2017/18 a pham?**

### **Datblygu darpariaeth llety a gofal addas**

Mae hyn yn flaenoriaeth, rydym angen sicrhau bod gan bobl Gwynedd y ddarpariaeth llety a gofal mwyaf addas er mwyn cyfarch eu hanghenion i'r dyfodol, o fewn cyfyngiadau adnoddau, a'n bod fel Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i'r galw.

### **Cefnogi Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl**

Mae Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys datblygu prosiect newydd, ar y cyd gyda'r Uned Cefnogi Pobl a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Pwrpas y prosiect fydd i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl sydd yn dioddef problemau iechyd meddwl dwys sydd dan fgygythiad o ddiartrefedd

## 5. Sut yr ydym yn gweithio

### Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu rôl broffesiynol

Mae trigolion Gwynedd yn derbyn darpariaeth gofal cymdeithasol gan ddarparwyr sydd yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd a darparwyr preifat neu trydydd sector. Mae tua 3,000 o staff wedi bod yn gyflogedig yn y sector Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.

Mae fframwaith Sefydlu Cenedlaethol yn gosod yr amcanion dysgu ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol newydd o fewn 3 mis yn y maes sy'n amlinellu prif amcanion dysgu fel diogelu, iechyd a diogelwch, cyfathrebu a gwerthoedd. Mae Gwynedd yn peilota cynllun newydd anwytho staff darparu mewnol ers Ebrill 2016 sydd yn cynnwys rhaglenni e-ddysgu a 3 diwrnod o hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae ein partneriaid hefyd yn cael mynediad at gyrsiau sydd yn cyd-fynd â'r fframwaith anwytho trwy ein gwefan partneriaeth.

Mae'r fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn gosod sylfaen ar gyfer cymwysterau addas yn y maes. Mae'r arolygaeth fel rhan o'r broses cofrestru gwasanaethau yn disgwyl i weithwyr gofal gwblhau cymhwyster addas i'w swyddi. Erbyn hyn mae canran uchel o weithwyr wedi cwblhau'r cymwysterau angenrheidiol. Mae disgwyliad o ran cofrestriad y gwasanaeth bod gweithwyr yn parhau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ac i'r perwyl hwn mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu yn cynnig amrediad o raglenni hyfforddiant i ddarparwyr mewnol a'u partneriaid.


Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn amlinellu bod disgwyliad i weithwyr gofal cartref gychwyn cofrestru fel gweithlu cofrestredig o 2018 a gweithwyr preswyl o 2020 ymlaen. Rydym wedi cychwyn gweithio rŵan i sicrhau bod gan ein gweithlu y cymwysterau angenrheidiol er mwyn

cofrestru. Mae trosiant staff yn parhau yn broblem yn enwedig yn y Maes Gofal Cartref ac mae prosiect yn y Cynllun Strategol yn ceisio mynd i'r afael â hyn gyda nifer o ymdrechion recriwtio wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae hyfforddiant modiwlau'r ddeddf wedi eu cynnal ac mae cyfres o hyfforddiant penodol i reolwyr gweithwyr cymdeithasol wedi eu cynnal hefyd er mwyn creu dealltwriaeth o'r newid diwylliant yn y ffordd o weithio. Mae hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y Person, Dementia, *'Collaborative conversations'* ac *'Active Support'* wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn y ddogfen (2016) Dementia: Mwy na dim ond colli cof bod diffyg hyfforddiant cyffredinol ac arbenigol o ran gofal dementia. Rydym fel Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r pryder hwn ac wedi bod yn dilyn y Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru. Rydym wedi bod yn cynnal hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith ers rhai blynyddoedd.

### Ein adnoddau ariannol a sut yr ydym yn Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Er gwaethaf y wasgfa ariannol, amcan y Cyngor yw gwneud yn siŵr fod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio i roi'r budd mwyaf i bobl Gwynedd. Mae'r gwaith o geisio sicrhau diwylliant cyson ar draws y Cyngor a'r egwyddor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn parhau. Nodir bod amser ac ymdrech wedi ei fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau fod y deunydd cywir ar gael gennym i hyrwyddo'r egwyddorion, i hyfforddi Uwch Swyddogion yn yr egwyddorion a gweithredu'r rhaglen ar gyfer datblygu arweinwyr. Erbyn hyn rydym yn treialu ffordd newydd o weithio o fewn 8 gwasanaeth yn y Cyngor. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, a bod newid diwylliant mewn sefydliad mawr fel y Cyngor am gymryd amser, gwelir rhywfaint o dystiolaeth fod ymwybyddiaeth wedi gwella ymysg aelodau staff



ac enghreifftiau lle mae treialu ffyrdd newydd o weithio wedi arwain at wella gwasanaeth i bobl Gwynedd.

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygydd efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Roeddem wedi adnabod y gallai'r bwlch ariannol dros y cyfnod pedair blynedd hyd at 2017-18 fod gymaint â £50 miliwn. O ganlyniad rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd i gadw effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth.

Erbyn canol y flwyddyn ddiwethaf daeth yn amlwg nad oedd y gostyngiadau grant yr oeddem am orfod eu hwynebu am fod cymaint â'r disgwyl, a thrwy hynny y byddai'n bwlch o £50miliwn yn lleihau i £40 miliwn i'w ddarganfod drwy gyfuniad o gynnydd canolig yn y Dreth Gyngor a chyflawni arbedion gwerth £31miliwn dros y cyfnod.

Mae'n allweddol bod y Cyngor yn cadw o fewn y gyllideb, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu i ni lwyddo i gadw o fewn y gyllideb o £469,000 (neu 0.28%) Ers 2013/14 fe welir ein bod yn flynyddol wedi llwyddo i gadw o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw bod £6.15 miliwn pellach o arbedion effeithlonrwydd wedi eu gwireddu trwy newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gan gynnal neu wella safon y gwasanaeth i'r trigolion ar yr un pryd. Mae gwaith pellach i'w wneud o fewn rhai adrannau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cynlluniau yn llawn, yn unol â'u haddewidion.

### **Gweithio mewn partneriaeth, Arweinyddiaeth Gwleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Ers blynnyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd

wedi ceisio manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, a hynny'n genedlaethol, yn rhanbarthol, yn is-ranbarthol, ac ar y lefel leol. O ran y maes gofal mae'r berthynas yn parhau i ddatblygu gyda'r sefydliadau megis y Byrddau Iechyd, yr Heddlu, y Trydydd Sector, darparwyr a gofalmwyr. Ond mae'n rhaid cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud, ac yn benodol fel rwyf eisoes wedi ei drafod, o ran cysylltiadau gyda'n cymunedau ar lefel fwy anffurfiol.

Mae dyfodiad y ddeddf yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ffurfioli a datblygu ymhellach ein, yn ogystal ag agor drysau newydd er budd ein trigolion. Credaf ein bod yn parhau i dorri tir newydd o ran cydweithio, ac mae'n debyg fod ymateb cynghorau'r gogledd i Ran 9 o'r Ddeddf yn dystiolaeth glir o hynny. Mae rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi cyfrifoldeb ar Gynghorau i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio gyda'u partneriaid er mwyn gwella canlyniadau llesiant pobl. Yn ogystal mae'r ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddatblygu byrddau partneriaeth rhanbarthol gyda'r bwriad i wella a chynyddu effeithlonrwydd.

Yng ngogledd Cymru mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei sefydlu gyda Chynghorydd Gareth Roberts, aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ac sydd wedi arwain portffolio maes Oedolion dros y blynnyddoedd diwethaf, yn Gadeirydd y Bwrdd. Mi fydd y bwrdd yn mynd rhagddo yn ystod y blynnyddoedd sydd i ddod i sicrhau bod trefniadau cydweithio ac integreiddio gydag Iechyd yn digwydd ac yn codi momentwm.

Rhan o'r ddeddf sydd yn bwysig imi dynnu eich sylw ati, yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd arnaf fel Cyfarwyddwr Statudol am Wasanaethau Cymdeithasol. Bu i'r Cabinet gymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr' yn ddiweddar - protocol yw hwn sydd yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau trefniadau

llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol hwn ar gael ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgysgu eu hunain â'r gofynion.


Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethu cymdeithasol sydd yn cynnwys cyfraniad Craffu. Mae gwaith wedi ei wneud o ran yr ymchwiliad 'O'r Ysbyty i'r Cartref', ac mae eu craffu parhaol ar feysydd arbennig yn cynnig persbectifau pwysig imi er mwyn sicrhau gwella parhaus, yn ogystal â hwyluso cyfleoedd i wella profiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol cadarn. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau yn gadarn. Yn ein cyfarfod diwethaf gyda'r AGGCC, nodwyd ein bod ar y cyfan wedi perfformio'n dda yn ystod 2016/17 ac wedi nodi bod rhai o'r cynlluniau trawsnewid sydd gennym yn rhai cyffrous. Rydym hefyd yn ystod y flwyddyn wedi ymateb i adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Lle i Alw'n Gartref' ac wedi asesu ein cynnydd yn erbyn ei hargymhellion. Er bod cynnydd da iawn wedi ei wneud yn y maes, rydym yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod pobl hŷn yn byw bywyd o ansawdd yn ein cartrefi.

Mae darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yng Ngwynedd yn flaenoriaeth ers blynyddoedd bellach ac yn rhan annatod o ddiwylliant y Cyngor a'r ardal. Rwy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda 'Mwy na Geiriau' ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth yr Iaith Gymraeg. Drwy ymgysgu a'r rôl hyn, gallaf ddylanwadu ar y cyfeiriad yn gyffredinol a chodi materion sydd angen sylw lefel cenedlaethol ac mae'n gyfle i ledaenu ymarfer da, sydd yn cynnwys ymarfer ni yma yng Ngwynedd. Yn ogystal a fy rôl i gyda'r agenda bwysig hon, mae trefniadau rhanbarthol yn bodoli lle mae'r prif bartneriaid sydd yn ymwneud a'r maes gofal a iechyd yn gweithio

gyda'u gilydd i gwella y ddarpariaeth o wasanaethau drwy'r Gymraeg. Elfen bwysig iawn o hyn yw'r cynnig rhagweithiol, sef bod unigolion ddim yn gorfod gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg, ond eu bod yn cael eu cynnig ar y pwynt cyntaf bosib.

Mae cynnydd Gwynedd yn erbyn amcanion y Fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn dda iawn. Mae sylfaen dda yma, sef Polisi Iaith gadarn a Pholisi recriwtio staff dwyieithog yn eu lle ers blynyddoedd lawer bellach. Wedi dweud hynny, mae angen parhau i gadw'r mater yn uchel o ran blaenoriaeth, gan fod derbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn yr iaith o angen, yn allweddol i sicrhau gwasanaeth o ansawdd. Mae'r Adrannau Oedolion a Plant wedi dynodi uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg i'r perwyl hwn ac rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein cynlluniau comisiynu fel ein bod yn gallu parhau i wella'r sefyllfa o ran darpariaethau i'r dyfodol. Mae hi'n her barhaus i hybu a sicrhau dwyieithrwydd a diwylliant Gymraeg o fewn ein darpariaethau. Ein bwriad yw ceisio edrych ar sut gallwn gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau ieithyddol yn llawn, a bydd gwaith cenedlaethol yn digwydd ar y mater hyn yn ogystal.

Mae trefniadau yn eu lle i adrodd yn ôl yn gyson ar gwynion yn codi o'r maes gofal, ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddatrys ac ymateb. Rydym yn awyddus iawn i weld cwynion fel cyfle i ddysgu a gwella'n barhaus. Yn benodol o ran y maes plant mae cwynion anorfod wedi bod o ran disgwyliadau rhieni mewn sefyllfaoedd anodd. Yn neilltuoled wedyn o ran y maes oedolion mae cwynion wedi bod eto eleni ynghylch diffyg darpariaeth yn Ne Meirionnydd, yn ogystal â gwendidau o ran ymgysylltu a chyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd cyn gwneud newidiadau i ddarpariaethau. Cafwyd un ymholiad Ombwdsmon yn ystod 2016-17. Cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsman gan eu bod yn anhapus gydag ymateb yr Adran ynghyd â'r



penderfyniad i wrthod uchafu eu cwyn i Gam 2 o'r drefn gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparwyd esboniad llawn o'r sefyllfa ynghyd â dogfennaeth berthnasol i'r Ombwdsman am y gŵyn.

Diolch am ddarllen yr adroddiad a gobeirthio ei fod yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a'n blaenoriaethau i'r dyfodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau mae croeso i chi gysylltu a mi.



# 6. Dogfennau allweddol a mynediad at wybodaeth bellach



## Mesurau Perfformiad

Mesurau Perfformiad Plant	2016/17
Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/ barn y plentyn (eithrio plant o dan 7 oed)	84%
Cynllun Trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed	n/a
Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	100%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	6%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt	100%
Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn	64%
Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	90%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen	100%
Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol	100%
Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol	53%
Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol	51%
Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg	84%
Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol	89%
Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno I Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau	94%
Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd 'cynnydd' yn dilyn derbyn gwasanaeth gan TAT (Tîm o Amgylch y Teulu)	95%
Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	91%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	17.7%
<b>Mesurau Perfformiad Oedolion</b>	
Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol.	55%
Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach.	80%
Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach.	74%
Faint o amser ar gyfartaledd y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal.	95%
Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl.	84%
Canran yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.	40%



# Gwybodaeth defnyddiol gan Cyngor Gwynedd

## Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor

Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn

<http://www.llesiantgwyneddamon.org/>

Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Do\\_gfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-lechyd/Asesiad-Poblogaeth-Gogledd-Cymru/NW-Population-Assessment-1-April-2017cym.pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Do_gfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-lechyd/Asesiad-Poblogaeth-Gogledd-Cymru/NW-Population-Assessment-1-April-2017cym.pdf)

Gwybodaeth Hyfforddiant

[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Partneriaeth-datblygur-gweithlu/Rh\\_estr-hyfforddiant-ac-archebu-cwrs.aspx](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Partneriaeth-datblygur-gweithlu/Rh_estr-hyfforddiant-ac-archebu-cwrs.aspx)

Polisi Iaith

[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Do\\_gfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-Iaith-Gymraeg/Polisilaith2016.Cymraeg.pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Do_gfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-Iaith-Gymraeg/Polisilaith2016.Cymraeg.pdf)

Cynllun Heneiddio'n Dda

<http://www.gwynedd.llyw.cymru/heneiddionda>

## Adroddiadau Rhanbarthol

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

<http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/gwybodaeth/>

## Adroddiadau Cenedlaethol

Mwy na Geiriau

[http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317\\_morethanjustwordscy.pdf](http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317_morethanjustwordscy.pdf)

Lle i Alw'n Gartref

[http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Lle\\_i\\_w\\_Alw\\_n\\_Gartref\\_-\\_Adolygiad\\_o\\_ansawdd\\_bywyd\\_a\\_gofal\\_pobl\\_h%c5%b7n\\_sy\\_n\\_byw\\_mewn\\_cartrefi\\_gofal\\_pres\\_wyl\\_yng\\_Nghymru1\\_1.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Lle_i_w_Alw_n_Gartref_-_Adolygiad_o_ansawdd_bywyd_a_gofal_pobl_h%c5%b7n_sy_n_byw_mewn_cartrefi_gofal_pres_wyl_yng_Nghymru1_1.sflb.ashx)

Adroddiad Breuddwydion Cudd

<https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/02/Breudd-Cudd.pdf>

## Mynediad at wybodaeth pellach

Dewis Cymru

<https://www.dewis.cymru/>

## Pryderu am unigolyn?

Os ydych yn gwybod am unigolyn sydd mewn perygl o gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol ffoniwch yr heddlu ar 999. Os nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted a phosibl i rannu eich pryderon.

## Plentyn:

01758 704455

01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)

## Oedolyn:

01286 682888

01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)